| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Archwilio |
| **DYDDIAD** | 23 Mehefin 2016 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16, a<br>• Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon |
| **AWDUR** | William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.

1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol bach yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

1.3 Ar gyfer "corff llywodraeth leol bach", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

## 2. CYFRIFON 2015/16

2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2015/16 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2015/16, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.

2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor.

2.4 Ar ôl archwiliad Deloitte ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio’r ffurflen cyn 30 Medi.

2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Roedd gwariant cyfalaf 2015/16 Harbyrau Gwynedd yn £75,644. Mae’r ffigwr hwn yn rhan o’r swm ar linell 6, gyda’r incwm sy’n ariannu ar linell 2.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo’r wybodaeth sydd yn yr atodiadau,** sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16 – Atodiad A
- Ffurflen datganiadau cyfrifon 2015/16, ar gyfer archwiliad – Atodiad B